

Mr Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Y Senedd

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Cyfeirnod: LF21005/AC283/caf
Dyddiad cyhoeddi: 1 Tachwedd 2021

Annwyl Peredur

Cyfarfod y Pwyllgor Cyllid 29 Medi 2021 – Craffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 20-21, Adroddiad Canfyddiadau Archwilio a Chynllun Blynyddol

Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 29 Medi lle roedd yn ystyried ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-21 a Chynllun Blynyddol 2021-22, gofynnodd i ni roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y canlynol:

Nodyn ar y cynnydd cyfredol gyda'r adolygiad Teithio a Chynhaliath

Cyn y pandemig, roedd ein model gweithredu yn gweld ein staff archwilio yn teithio'n rheolaidd i gyrff a archwilir. Roedd ein milltiredd wedi bod yn lleihau ers blynyddoedd lawer, fodd bynnag, wrth i ni geisio lleihau costau, lleihau ein hól troed amgylcheddol a datblygu ffyrdd newydd o weithio, gan gynnwys ein buddsoddiad mewn fideogynadledda. Yn 2019 gyda chefnogaeth y Pwyllgor Cyllid, cynhaliodd ein Harchwilwyr Allanol adolygiad Gwerth am Arian o'n cynllun Teithio a Chynhaliath (T&S). Canfu hyn bod ein taliad o Lwfans Teithio sefydlog o £3,350 i lawer o'n staff yn gostus, nad oedd yn rhoi gwerth da am arian ac nad oedd yn cydweddu â chynlluniau ad-dalu teithio cyrff cyhoeddus eraill. Argymhellodd ein harchwilwyr ein bod yn ceisio trefniant amgen.

Gan gofio sensitifrwydd newid a'r effaith ariannol y gallai ei chael ar rai staff, sefydlwyd grŵp Gorchwyl a Gorffen staff i ddatblygu cynigion ar gyfer y Cynllun Teithio a Chynhaliath yn y dyfodol a threfniadau pontio. Gweithredodd y grŵp

Gorchwyl a Gorffen o fewn paramedrau a bennwyd gan ein Bwrdd, gan gynnwys yr angen i ddileu'r Lwfans Teithio sefydlog presennol a sicrhau arbedion o o leiaf £1 miliwn dros gyfnod o 5 mlynedd.

Croesawodd y Pwyllgor Cyllid yr astudiaeth gwerth am arian a sefydlu'r grŵp Gorchwyl a Gorffen. Roedd hefyd yn cydnabod y canlyniadau ariannol uniongyrchol i staff, a'r angen i sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i gyflogau a chadw staff wrth ddatblygu cynigion i newid y cynllun.

Cyflwynwyd y cynigion gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf 2021. Roedd y Bwrdd yn cefnogi'r cynigion a oedd yn canolbwyntio ar gyfnod pontio o 2 flynedd heb unrhyw newidiadau'n cael eu gweithredu tan 2024. O 2024 byddai lliniaru'n rhannol ar goll i'r lwfans drwy ailfuddsoddi cyfran drwy godiad cyflog. Byddai staff hefyd yn cael y dewis o daliad £7,000 ymlaen llaw sy'n rhoi cymhelliant bach o £300 yn fwy na gwerth dwy flynedd o lwfans. Argymhellwyd hyn gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen i gymell staff er mwyn gweithredu'r newidiadau yn gynharach – gydag arbedion yn cael eu cyflawni o fis Ebrill 2022.

Ni fyddai gan y cynllun newydd arfaethedig unrhyw lwfans sefydlog ac yn hytrach byddai'n darparu ar gyfer ad-dalu'r holl deithio ar gyfraddau milltiroedd safonol Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Roedd y Bwrdd hefyd yn cefnogi argymhelliad y grŵp Gorchwyl a Gorffen y dylid parhau â'r Lwfans Gweithio Cartref o £26 y mis, y mae Archwilio Cymru wedi'i dalu ers dechrau'r pandemig.

Mae'r cynigion hyn yn cyd-fynd â rhai newidiadau cysylltiedig i'r polisi teithio ac fe'u rhannwyd gyda'r Undebau Llafur a staff ym mis Awst 2021. Roedd y cyfnod ymgynghori yn cynnwys llawer o ymgysylltu â staff gan gynnwys tri chyfarfod staff, sesiynau penodol ar gyfer hyfforddeion, sesiynau briffio rheolwyr a deunyddiau ategol, lle pwrpasol ar y fewnrwyd gyda Chwestiynau Cyffredin ac adborth unigol uniongyrchol gan fewnflwch pwrpasol. Drwy gydol y broses hon, mae'r rheolwyr wedi bod yn gydymdeimladol ac yn empathetig ynghylch yr effaith ariannol andwyol sy'n gyson â safbwyntiau a fynegwyd gan y Pwyllgor Cyllid, ac mae'r trefniadau pontio wedi'u cynllunio i ategu staff i wneud addasiadau angenrheidiol drwy beidio â rhuthro i weithredu'n gynnar. Oherwydd dechrau'r ymgynghoriad yn ystod cyfnod yr haf, cafodd ei ymestyn i gwmpasu chwe wythnos er mwyn i'r holl staff roi eu barn. Daeth yr ymgynghoriadau i ben ar 24 Medi 2021.

Yr ydym yn awr mewn cyfnod o drafodaethau gyda'n partneriaid undebau llafur. Yn amodol ar y trafodaethau hynny, gobeithiwn y bydd yr Undebau Llafur yn ceisio barn eu haelodau drwy gyfrwng pleidlais gudd ar y cynigion terfynol ym mis Tachwedd. Byddwn mewn sefyllfa i roi mwy o fanylion i'r Pwyllgor ar ôl i'r trafodaethau hynny ddod i ben, ac ar ôl cynnal y bleidlais gudd.

Os ceir cytundeb drwy'r broses hon, ein nod fydd gweithredu unrhyw daliadau ymlaen llaw ym mis Ebrill 2022 a gweithredu'r trefniadau newydd yn llawn o fis Ebrill 2024.

Er mwyn ariannu'r taliad ymlaen llaw, byddai angen Amcangyfrif Atodol ar Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol o hyd at £1.48 miliwn. Dyma uchafswm cost pe bai'r holl staff cymwys yn dewis derbyn taliad ymlaen llaw yn hytrach na pharhau i dderbyn lwfans teithio am y ddwy flynedd nesaf. Byddai unrhyw weddillion nas defnyddiwyd yn cael eu dychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru.

Byddai arbedion yn dechrau cael eu cyflawni o fis Ebrill 2022 gyda chost y taliadau ymlaen llaw yn cael eu hadennill yn llawn o fewn ychydig dros ddwy flynedd o gynilion ar y lwfans teithio. Byddai'r newidiadau i'r Cynllun Teithio a Chynhaliath wedyn yn sicrhau arbedion blynyddol parhaus yn unol â bwriad y Bwrdd. Bydd arbedion a gyflawnir o'r newidiadau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn Amcangyfrifon yn y dyfodol fel gostyngiad yn y galw ar Gronfa Gyfunol Cymru a llai o ffioedd ar gyfer cyrff a archwilir.

Byddem yn ddiolchgar pe bai'r Pwyllgor Cyllid yn nodi a yw'n barod i gefnogi'r rhesymeg dros yr Amcangyfrif Atodol mewn egwyddor. Pe na bai'r Pwyllgor yn cefnogi'r Amcangyfrif Atodol, byddem yn parhau i dalu'r lwfans i staff cymwys tan 1 Ebrill 2024 pryd y byddai'r trefniadau newydd, a chynhyrchu arbedion, yn dechrau.

Nodyn ar "y cynllun strategol 5 mlynedd rydym yn ei gwblhau ar hyn o bryd i flaenoriaethu pwyntiau allweddol newid/trawsnewid sefydliadol."

Yn ystod Gwanwyn a Haf 2021, mae ein Tîm Arweinyddiaeth Weithredol wedi bod yn gweithio i ddatblygu strategaeth 5 mlynedd hirdymor ar gyfer Archwilio Cymru i gefnogi'r broses gynllunio flynyddol. Ffocws y strategaeth hon yw creu gweledigaeth glir ar gyfer ein sefydliad, a map ffordd i staff a rhanddeiliaid allanol ar sut y byddwn yn cyrraedd y pedwar uchelgais i:

- Fanteisio'n llawn ar ein persbectif, ein harbenigedd a'n dyfnder mewnwelediad unigryw
- Cryfhau ein sefyllfa fel llais awdurdodol, dibynadwy ac annibynnol
- Cynyddu ein gwelededd, ein dylanwad a'n perthnasedd
- Bod yn sefydliad enghreifftiol ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt

Dros hydref 2021 byddwn yn ymgysylltu â'n rhanddeiliaid mewnol i sicrhau bod y strategaeth yn iawn ac ar ddechrau 2022 byddwn yn dechrau rhannu ein syniadau yn

allanol cyn lansio'r strategaeth ym mis Ebrill 2022. Nid yw hon yn gyfres newydd o ddyheadau syfrdanol – dyma'r cyfle i sicrhau ein bod yn glir ynglŷn â'r hyn y mae angen i ni ei wneud i lwyddo a chyflawni ein diben.

Themâu sy'n rhedeg drwy'r strategaeth fydd datblygu rhaglen archwilio fwy cyfannol ac effeithiol, gan wella effaith ein cyfathrebu a sicrhau ein bod yn creu'r amgylchedd sefydliadol y gallwn ffynnu ynddo nawr ac yn y dyfodol.

Mae croeso i chi gysylltu â ni os oes eglurhad ychwanegol y gallwn ei ddarparu.

Yn gywir



LINDSAY FOYSTER
Cadeirydd, Swyddfa Archwilio
Cymru



ADRIAN CROMPTON
Archwilydd Cyffredinol Cymru